Ar noson y 4ydd o Dachwedd, 1839, cerddodd miloedd o weithwyr De Cymru drwy`r glaw i gyfeiriad Casnewydd. Roedden nhw`n cario baneri. Yr un faner sydd i`w gweld ar glawr Seren Tan Gwmwl.



Cafodd ei llunio gan gyfreithiwr o Gaerfyrddin o`r enw Hugh Williams, dyn oedd yn cefnogi`r Siartwyr yn eu hymgyrch i gael diwygio`r Senedd a rhoi pleidlais i bob dyn. Roedd hefyd yn eu cefnogi yn eu hymgyrch ehangach i gael newidiadau cymdeithasol, ac yn cefnogi Merched Beca. Pan oedd y Siartwyr yn ymgyrchu yn 1839 dim ond 7% o boblogaeth Prydain oedd yn cael pleidleisio, doedd dim pleidlais gudd, ac roedd seddi yn Nhy`r Cyffredin ym mhocedi`r landlordiaid lleol. Pan fyddai pobl yn ddigon dewr i groesi eu meistri a phleidleisio yn eu herbyn, bydden nhw`n aml yn cael eu troi allan o`u cartrefi.

Mae lliwiau`r faner yn bwysig hefyd (lliwiau gorsedd y beirdd): **gwyrdd i gynrychioli`r ddaear, glas i gynrychioli`r nefoedd, a gwyn i gynrychioli CYFIAWNDER a fyddai rhyw ddydd yn goresgyn nef a daear**. Roedd y gair Cyfiawnder wedi ei ysgrifennu ar draws baneri`r Siartwyr Cymreig.

Ond roedd Siartiaeth yn Ne Cymru yn brwydro dros lawer mwy nag ennill pleidlais; roedd yn fudiad chwyldroadol oedd am ddymchwel y system a sefydlu Gweriniaeth. *`Arwyr a merthyron oedden nhw bob un`* yn ôl Gwyn Alf Williams. Roedd gan Siartwyr ardal Casnewydd gynllun i gipio`r dref, sefydlu eu trefn a u hawdurdod eu hunain yno a sefydlu Gweriniaeth. Roedd Siartwyr Lloegr i fod i wneud yr un peth yn Lloegr hefyd; newidiodd rheiny eu meddwl ar y funud olaf. Dywedodd Henry Vincent mewn araith yn y Coed Duon yn 1839 (cyn cael ei garcharu)...



`In this place, a few thousand armed men in the hills could successfully defend it. Wales would make an excellent Republic. To your tents, O Israel! With one heart, one voice, and one blow, perish the privileged orders! Death to the aristocracy! Up with the people and the government they have established`.

Gyda`r nos, ar y 4ydd o Dachwedd, 1839 casglodd miloedd o weithwyr De Cymru mewn mannau gwahanol y tu fas i Gasnewydd gyda`r bwriad o orymdeithio i`r dre a`i chipio yn enw`r Siartwyr. Wedi cerdded yn y glaw drwy`r nos cyrhaeddwyd Casnewydd. Un o`r rhai wnaeth gerdded oedd bachgen 19 oed o`r enw George Shell; ysgrifennodd at ei rieni cyn dechrau`r orymdaith

`Byddaf heno yn cymryd rhan mewn brwydr ddewr dros ryddid, ac os gwelith Duw hi`n dda i arbed fy mywyd, fe`ch gwelaf cyn bo hir. Os na peidiwch a galaru, byddaf wedi syrthio dros achos dda.`



Bu farw`r bore wedyn yn y frwydr.

Er na wnaeth y Siartwyr lwyddo i gipio grym mae`r hyn wnaethon nhw`n bwysig iawn. Roedd yn ymgais wirioneddol gan ddosbarth gweithiol De Cymru i gymryd rheolaeth dros eu bywydau eu hunain - i benderfynu ar eu dyfodol eu hunain. Mae Gwyn Alf yn dyfynnu Dr.William Price wrth iddo ffarwelio â`r Siartwyr oedd yn gadael am Gasnewydd, ac yna`n ychwanegu sylwadau ei hunan.....

***`Maent wedi cychwyn ar y daith hir sy`n arwain at Gyfiawnder`,*** *oedd ei eiriau. Ar y ffordd honno rydym ni o hyd. Fe fydd hi`n daith hir, yn daith anodd ac yn daith garegog. Cymerwch gysur. Fe fuodd ein cyndadau ar y ffordd hon o`r blaen. Ennill wnaethon nhw yn y diwedd. A dyna a wnawn ninnau.`*

Super Furry Animals ... siartwyr!

FIDEL CASTRO, CUBA, JOHN F. KENNEDY, BAE'R MOCH, ... A *'COCK-UP'* AMERICA.

Ar y 1af o Ionawr 1959.....

tra bod y rhan fwyaf o bobl y byd yn sobri ers y noson gynt, neu'n stwffo'u hwynebau â bwyd, neu'n cwyno am bris lager .....

roedd criw bach o bobl Cuba *yn dangos i'r byd bod modd* creu hanes, gan ddangos nad oedd yn rhaid i bethau fod fel yr oedden nhw, a bod modd NEWID; ac yn herio grym economaidd Unol Daleithiau'r America ar yr un pryd - not bad!

Ar y diwrnod hwnnw, gyda chefnogaeth yr *expert* chwyldroadwr **Che Guevara**, cymrodd Fidel Castro reolaeth o ynys Cuba. Ar yr 8fed o Ionawr, gorymdeithiodd Castro i mewn i'r brif ddinas Havana a chafodd groeso anferth gan bobl oedd allan ar y strydoedd i'w groesawu. Aeth Castro ati'n syth i ryddhau'r wasg a datgan bod hawliau sifil llawn gan bobl Cuba. Roedd degawdau o reolaeth yr Unben / pyped America Batista wedi dod i ben o'r diwedd.

.....

J.F. Kennedy

golwg dalflas!

Ar Ebrill 14, 1961 lawnsiodd 1,400 o Cubans alltud dan yr enw *La Brigada* ymosodiad ar Cuba o Nicaragua, mewn ymdrech i gael gwared ar Lywodraeth Sosialaidd Dr Fidel Castro. Rhain oedd y bobl oedd *yn flin bod Castro wedi* gwladoli'r melinau siwgr, a chymryd busnesau i ddwylo'r llywodraeth i'w rhedeg er lles pobl Cuba, yn hytrach na'u bod yn cael eu rhedeg er lles pobl fusnes America. Yn ystod 1960 gadawodd miloedd o *emigres* Cuba am fywyd cyfalafol *'gwell'* yn Miami.

Oherwydd ei ofn o'r smygwr sigars a'i lywodraeth Sosialaidd roedd Arlywydd America John Fitzgerald Kennedy wedi apwyntio Richard Bissell i *helpu'r ffoaduriaid o Cuba i* geisio cael gwared ar Castro. Doedd Kennedy ddim eisiau gweld America'n cael ei chysylltu gyda'r ymosodiad ar Cuba, ond rhoddodd ganiatad i fomwyr America - B26s - i gael bomio Cuba i baratoi'r ffordd ar gyfer y *Brigada*.

Ar ôl y bomio gan America collodd Cuba 5 awyren, ond roedd ganddi 4 *Sea Fury*, 1 B26 a 3 T33 yn weddill.

ROEDD GAN CASTRO A CHUBA 8 AWYREN I AMDDIFFYN EU HUNAIN YN ERBYN *YMOSODIAD OEDD YN* CAEL CEFNOGAETH AMERICA, OND DIM OND 7 PEILOT OEDD GANDDO I'W HEDFAN.

Yn angladd un o'i beilotiaid dywedodd Castro ...

'Hir oes i'r dosbarth gweithiol, hir oes i'r werin, hir oes i'r rhai gostyngedig, hir oes i'n mamwlad, fe wnawn ni drechu. Ymlaen Cubans! Atebwch gyda dur a thân y barbariaid sy'n ein casau ac sydd am ein gweld yn dychwelyd i fod yn gaethweision. PATRIA O MUERTE VENCERMOS!'

Wrth i`r *Brigada* ddechrau eu hymosodiad, dywedodd Samosa, unben Nicaragua wrth arweinydd y *Brigada* Pepe San Ramon ... *`dewch nôl â blew o farf Castro i fi.`*

Serch hynny, oherwydd *genius* Castro, a dewrder un dyn **Capten Enrique Carreras** arhosodd barf Castro yn ei lle, a chafodd Cuba a`r freuddwyd Sosialaidd ryngwladol ei hachub - er gwaethaf ymdrechion America a Kennedy, ac yn arbennig braich derfysgol yr Arlywydd, y CIA.

Roedd yr ymosodiad gan bobl wnaeth golli mas pan gymrodd Castro`r ynys - ymhlith y 1,400 roedd diddordebau ariannol y *Brigade* yn cynnwys 371,000 hectare o dir, 7 ffatri, 10,000 o stadau, 10 purfa siwgr, 3 banc, 5 pwll mwyngloddio a 12 clwb nos; i gyd wedi cael eu cymryd *gan Castro i ddwylo`r* llywodraeth a`u rhedeg yn enw`r bobl.

Cyn toriad gwawr ar 17 Ebrill 1961 glaniodd *La Brigada* ar ddau draeth ym Mae`r Moch - y Bay of Pigs yn Cuba. Gwyddai Castro bod yn rhaid iddo ymateb, ac am 4.30am ffoniodd ei brif beilot y Capten Enrique Carrera a dweud wrtho *`Chico, rhaid i ti suddo`r llongau `na i mi`*. Credai`r CIA eu bod wedi llwyddo i ddinistrio llu awyr Cuba, ac oherwydd hyn doedd dim arfau *anti-aircraft* ar y llongau. Am 6 y bore dechreuodd Carreras ar ei ymosodiad yn ei *Sea Fury* gydag un *Sea Fury* arall ac un B26 yn ei ddilyn. Am 6.30am aeth un o longau America yr *Houston* i drafferth a gorfod glanio, tra bod drylliau awyren Carreras wedi llwyddo i wneud niwed i`r llong oedd yn gweithredu fel pencadlys y CIA - y *Barbara J.* Dychwelodd Carreras i *base* i gael mwy o danwydd ac *ammunition*, cyn dychwelyd i`r Bae am 9.30am; y tro hyn suddodd y llong *Rio Escondo* oedd yn cario nwyddau a dulliau cyfathrebu angenrheidiol. Bryd hynny, penderfynodd gweddill y llongau ffoi am y môr agored, gan adael 1,350 o ddynion y *Brigada* ar y traeth. Roedd rhan gyntaf y frwydr dros Fae`r Moch drosodd.

Panic oedd ymateb JFK pan *gatecrashwyd* parti yn y Ty Gwyn gan Richard Bissel i roi`r newyddion iddo. AMERICA YN COLLI YN ERBYN 8 AWYREN A CHWYLDROADWR BARFOG HANNER CALL! - AMHOSIB! Gorchmynwyd peilotiaid America i gychwyn ymosodiad arall yn erbyn y 4 awyren oedd gan Castro ar ôl. Dyma pryd ddigwyddodd un o`r camgymeriadau mwyaf mewn hanes milwrol. Methodd America, y wlad fyddai`n rhoi dyn ar y lleuad 8 mlynedd yn ddiweddarach sylweddoli bod awr o wahaniaeth amser rhwng amserau Nicaragua a *Eastern Zone Time* America.

Cyrhaeddodd y B26s Fae`r Moch o Nicaragua tra bod peilotiaid America`n dal ar eu llongau`n bwyta`u bacwn a wy a`u *`Cornflakes`*. Erbyn iddyn nhw gyrraedd awr yn hwyr roedd y frwydr wedi ei cholli, a Carreras wedi taro eto. Erbyn diwedd y diwrnod hwnnw roedd 1,189 o`r *Brigada* wedi ildio - *cock-up* milwrol llwyr gan America.

Yn ystod y cyfnod wedyn closiodd Castro fwy at yr Undeb Sofietaidd; gwlad fu`n gyfaill mawr iddo ers iddo ddod i rym. Treuliodd Carreras weddill ei fywyd yn hedfan awyrenau i *Cuban Airways* allan o Havana. Mae Castro`n dal yn Arlywydd Cuba, er gwaethaf ymdrechion America i gael gwared arno, ac mae ei eiriau`n dal i ganu yng nghlustiau Arlywyddion America ....

`Nid wyf yn ofni cynddaredd y gormeswyr diflas wnaeth gymryd bywydau cymaint o fy nghyfeillion a`m *comrades.* Condemniwch fi. Nid yw`n bwysig. Bydd hanes yn dangos y gwir` -
GWIR POB GAIR
COMRADE CASTRO!

Che Guevara -

`expert`
chwyldroadwr.



Ateb Seren Tan Gwmwl i gylchgrawn COMMANDO.

1969 - Aberystwyth. Cymru o dan orthrwm gwlad estron. Ond roedd un dyn yn breuddwydio am ryddid. Cayo Evans. Kommandante yr FWA oedd yn cynnal cyfarfodydd yn eu pencadlys cyfrinachol. Dyma eu stori oherwydd ...





Gyda hynny, agorodd Field Marshall Coslett y bocs i ddangos llond *crate* o *grenades*...

Roedd Coslett yn yrrwr gwych, a chyrhaeddodd yr FWA eu gwersyll hyfforddi cyfrinachol yn Abergwesyn mewn chwinciad...



Meddyliodd y Kommandante y byddai'r *grenades* yma'n galluogi'r FWA i ennill y frwydr yn erbyn y gorthrymwyr, a'i osod ef ymhlith arweinwyr mawr yr 20fed Ganrif...



Breuddwydiodd Cayo y byddai'n ymuno â Mao Tse Tung a Che Guevara yn waredwr ar ei bobl ...